

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

JAMES, EVAN ('Ieuan ap Iago'; 1809 - 1878), a'i fab, JAMES, JAMES ('Iago ap Ieuan'; 1833 - 1902), cyfansoddwyr 'Hen Wlad fy Nhadau'



Enw: Evan James

Ffugenw: Ieuan ap Iago, Iago ap Ieuan

Dyddiad geni: 1809

Dyddiad marw: 1878

Plentyn: James James

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfansoddwyr 'Hen Wlad fy Nhadau'

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Barddoniaeth

Awdur: Watkin William Price

Gwehydd a marsiantwr gwlan a gwlanen ydoedd Evan James. Yr oedd yn cadw'r Ancient Druid Inn yn Argoed, plwyf Bedwellty, sir Fynwy, pan anwyd ei fab James. Symudodd y teulu yn gynnar wedi hynny i Bontypridd, lle yr oedd gan y tad ffatri wlan yn Mill Street. Yr oedd Evan James yn dipyn o fardd; ceir engrifftiau o'i waith yn *Gardd Aberdar*, 1854, *Cymru (O.M.E.)*, 1915, etc. Yn ôl Taliesin James, wyr Evan James, y mab a gyfansoddodd yr alaw yn 1856, a'r tad a ysgrifennodd y geiriau. Ceir trafodaeth lawn ar y pwnc gan Percy A. Scholes, Mus. Doc., yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, iii, 1-10, ynghyd â darluniau o'r tad a'r mab a chopiau ffacsimile o fersiynau llawysgrif ac argraffedig. Mae erthygl ddiweddarach yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, viii, 244-57 yn nodi rhesymau dros amau priodoli'r alaw i James James.

Cynhwysodd James James yr alaw, â'r teitl 'Glanrhondda', yn y casgliad o alawon nas cyhoeddwyd a anfonodd i gystadleuaeth yn eisteddfod genedlaethol Llangollen, 1858, dan y ffugenw 'Orpheus' (*Minor Deposit 150B*). Cynganeddwyd hi gan **John Owen** ('Owain Alaw'), beirniad y gystadleuaeth, a'i cynhwysodd hi yn nhydedd gyfrol ei *Gems of Welsh Melody*, 1860. Daeth y gân yn boblogaidd bron ar unwaith. Canwyd hi yn eisteddfod genedlaethol Aberystwyth, 1865, gan **Kate Wynne**, a'r flwyddyn ddilynol yn eisteddfod genedlaethol Caer, gan **Lewis W. Lewis** ('Llew Llwyfo').

Bu Evan James farw 30 Medi 1878 a chladdwyd ef yng nhladdfa Carmel, eglwys y Bedyddwyr, Pontypridd. Bu James James yn cadw tafarnau - yn Walnut Tree Bridge (islaw Pontypridd) a Aberpennar; bu'n byw am gyfnod gyda'i fab yn y Swan Hotel, Aberaman. Bu farw yn 6 Hawthorne Terrace, Aberdâr, 11 Ionawr 1902, a chladdwyd ef yng nhladdfa gyhoeddus Aberdâr.

Ar 23 Gorffennaf 1930 dadorchuddiwyd cofadail i'r tad a'r mab, gwaith **Syr William Goscombe John, R.A.**, ym mharc Ynysangharad, Pontypridd.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

Trevor Herbert, 'James, Evan [Ieuan ap Iago] (1809-1878)' *Oxford Dictionary of National Biography*

Percy A. Scholes, 'Hen Wlad fy Nhadau', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, iii, 1-10, a'r ffynonellau a enwir yno

Y Cymro, 17 Gorffennaf 1943

newyddiaduron De Cymru

Tecwyn Ellis, 'Yr alaw 'Hen Wlad fy Nhadau'. Pwnc Dadl, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, viii, 244-257

Darllen Pellach

Archifau LIGC: Minor Deposit 150B: Collection of Welsh Airs compiled and arranged by 'Orpheus' for the Llangollen Eisteddfod

Archifau LIGC: NLW Evan James MS 1 yn cynnwys y copi cynharaf o Hen wlad fy nhadau yn llawysgrifen y cyfansoddwr

Meredydd Evans, 'Pwy oedd "Orpheus" Eisteddfod Llangollen 1858?', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 5 (2002), 59-64

Erthygl Wicipedia: Evan James

Erthygl Wicipedia: James James

Sound and Film

Madge Breese yn canu'r recordiad cyntaf sy'n hysbys o Hen Wlad fy Nhadau 11 Mawrth 1899

LIGC: Llawysgrif Anthem Genedlaethol Cymru: un o drysorau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: Llawysgrifau Evan James

VIAF: 43520326

Wikidata: Q3061325

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Price, W. W., (1953). JAMES, EVAN ('Ieuan ap Iago'; 1809 - 1878), a'i fab, JAMES, JAMES ('Iago ap Ieuan'; 1833 - 1902), cyfansoddwyr 'Hen Wlad fy Nhadau'. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JAME-EVA-1809>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LIGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiarffwrdd gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government